**RHEOLIADAU DIOGELU IECHYD (CYFYNGIADAU CORONAFEIRWS) (RHIF 5) (CYMRU) (DIWYGIO) 2021**

**ASESIAD O'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB**

**Cyflwyno Fframwaith Penderfyniadau Rheoli Heintiau COVID-19 lleol ar gyfer ysgolion o hydref 2021 ymlaen**

**Disgrifiwch ac esboniwch effaith y cynnig ar bobl sydd â nodweddion gwarchodedig fel y'u disgrifir yn Neddf Cydraddoldeb 2010**

Gwnaethom newidiadau i'n Canllawiau Gweithredol ar gyfer ysgolion a lleoliadau, i ddod i rym o fis Medi 2021 ymlaen. Yn gryno, mae'r newidiadau hyn yn golygu nad yw gorchuddion wyneb bellach yn cael eu hargymell fel mater o drefn ar gyfer staff neu ddysgwyr yn yr ystafell ddosbarth. Hefyd mae ysgolion a lleoliadau'n mynd yn ôl i amseroedd arferol eu sesiynau ac nid oes angen defnyddio grwpiau cyswllt mwyach. Gellir gweld Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer y newidiadau hyn yma.

Cyhoeddodd y Prif Weinidog ar 6 Awst y byddai Cymru'n symud i Lefel Rhybudd Sero ar 7 Awst. Fel rhan o'r cam hwn, ni fydd rhaid i oedolion sydd wedi cael eu brechu'n llawn a phlant dan 18 oed hunanynysu bellach os cânt eu nodi fel cysylltiadau agos i rywun sydd wedi profi'n bositif am Covid-19. Nid yw'r Asesiad Effaith hwn yn ystyried y newidiadau hyn gan eu bod wedi'u cynnwys yn yr Asesiadau Effaith a gynhaliwyd ar gyfer y cyfnodau adolygu 21 diwrnod a gellir dod o hyd i'r rhain yma

Rydym wedi datblygu Fframwaith Penderfyniadau Rheoli Heintiau ('Y Fframwaith') ar gyfer ysgolion a lleoliadau, sy'n nodi'r trefniadau ar gyfer darparu dysgu mewn ysgolion.  Bydd y Fframwaith yn galluogi ysgolion a lleoliadau i deilwra ymyriadau i adlewyrchu risgiau ac amgylchiadau lleol.

Amlinellir y cynigion cyffredinol yn gryno isod. Rydym yn derbyn yn llwyr fod gan unrhyw newid i drefniadau addysg effaith amrywiol ac eang ar wahanol grwpiau gan gynnwys dysgwyr, staff, teuluoedd a chymunedau.

**Cynnig**

Ym mis Gorffennaf 2021 cyhoeddodd y Prif Weinidog fersiwn wedi'i diweddaru o Gynllun Rheoli Coronafeirws Cymru, sy'n nodi'r trefniadau i symud i "lefel rhybudd

sero" - cyfnod newydd sydd wedi'i gynllunio i sicrhau dull cymesur o ymdrin â COVID-19, gan adlewyrchu effaith brechu a chydbwyso risgiau a niwed.

Mae'r Cynllun Rheoli yn arwydd o'r disgwyliad y dylai lleoliadau addysg weithredu yn ôl eu harfer cymaint â phosibl ar lefel rhybudd sero. Bydd mesurau sylfaenol mewn grym o hyd, gan gynnwys llunio asesiadau risg, trefniadau hylendid, awyru ac atal presenoldeb gan unigolion sydd â symptomau COVID-19, ond mae mesurau eraill yn cael eu llacio fel rhan o system reoli gymesur. O ran ysgolion, bydd hyn yn caniatáu rhywfaint o hyblygrwydd ar gyfer gwneud penderfyniadau'n lleol a theilwra ymyriadau, â chymorth awdurdodau lleol, Timau Rheoli Digwyddiadau ac iechyd y cyhoedd.

Symudodd Cymru i lefel rhybudd sero ar 7 Awst 2021. Ond nid yw'r coronafeirws wedi diflannu ac mae'n parhau i fod yn risg iechyd difrifol. Bwriad y Fframwaith yw caniatáu i rai mesurau gael eu dwysáu/eu llacio yn dibynnu ar lefel y risg a nodwyd yn lleol. Gallai'r mesurau hyn gynnwys gwisgo gorchuddion wyneb a defnyddio profion cyflym.

Llywodraeth Cymru fydd yn pennu lefel risg gyffredinol Cymru yn genedlaethol a bydd pawb yn cael yr wybodaeth hon.

Os asesir, drwy wybodaeth leol, fod y lefel risg – ar gyfer rhanbarth, ardal neu ysgol unigol – yn wahanol i'r lefel risg genedlaethol, er enghraifft, oherwydd achos mewn ysgol neu glwstwr posibl, bydd ysgolion yn cael cymorth i adolygu eu hasesiad risg a rhoi ymyriadau cymesur pwrpasol ychwanegol ar waith. Byddai unrhyw benderfyniad i argymell ailgyflwyno ymyriadau pwrpasol, fel gorchuddion wyneb neu grwpiau cyswllt, am gyfnod yn cael ei wneud gan yr ysgol neu'r lleoliad yn lleol mewn trafodaeth ag iechyd y cyhoedd, Profi, Olrhain, Diogelu a'r awdurdod lleol (ni fydd disgwyl i'r ysgol wneud penderfyniadau ar i phen ei hun).

**Beth mae hyn yn ei olygu o ran mesur camau gweithredu cydraddoldeb?**

Nod y Fframwaith yw galluogi ysgolion a lleoliadau i reoli risgiau'n lleol (gweler uchod), gyda'r nod o ddarparu cysondeb a lleihau'r amser y mae disgyblion yn ei dreulio oddi wrth ddysgu wyneb yn wyneb drwy ei gwneud yn bosibl i ysgolion weithredu mor normal â phosibl o fis Medi ymlaen.

Gofynnodd ymgynghoriad *Coronafeirws a Fi* Comisiynydd Plant Cymru gyda phlant a phobl ifanc (Mai 2020 ac Ionawr 2021) am farn a phrofiadau 19,737 o blant a phobl ifanc 3-18 oed yn ystod y cyfyngiadau COVID. Y tri phrif beth a ddywedodd pobl ifanc (12-18) mai'r rheolau aros gartref a gafodd yr effaith fwyaf arnynt oedd 'methu treulio amser gyda ffrindiau' (72%), 'methu ymweld ag aelodau o'r teulu' (59%) a 'ysgol neu goleg yn cau' (42%). Mae'r adroddiad yn datgan yn ei ganfyddiadau cryno fod bywyd wedi bod yn anodd ar y cyfan i bob grŵp oedran gyda llawer yn mynegi rhwystredigaeth ac weithiau dicter am effaith y pandemig ar eu bywydau. Siaradodd llawer am weld colli eu ffrindiau, athrawon, ysgolion a theuluoedd.

Ym mis Gorffennaf 2021 trefnwyd grwpiau ffocws gyda phlant a phobl ifanc gan Plant yng Nghymru a swyddfa Comisiynydd Plant Cymru, i gael eu hadborth ar drefniadau gweithredol mewn ysgolion. Y neges gyson oedd bod disgyblion eisiau

cyn lleied o amharu ar eu diwrnod ysgol ag y bo modd, bod arnynt eisiau bod yn yr ysgol a pheidio â gorfod dysgu o bell, a'u bod yn dymuno osgoi'r angen i hunanynysu cymaint â phosibl. Derbyniodd y disgyblion y byddai angen o hyd i roi mesurau ar waith mewn ysgolion a lleoliadau ac na fyddai modd mynd yn ôl ar unwaith i fel roedd pethau cyn y pandemig nac i'r hen ffyrdd o weithio. Roeddent hefyd yn cyfeirio at yr effaith sylweddol a gafodd y pandemig ar eu haddysg o ganlyniad i gau ysgolion neu golli dysgu wyneb yn wyneb o ganlyniad i hunanynysu.

Mae Estyn wedi cyhoeddi canfyddiadau ei waith ymgysylltu ag ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd ym mis Mehefin 2021. I grynhoi, adroddodd arweinwyr ysgolion fod y cyfnod diweddaraf o ddysgu o bell wedi cael effaith andwyol ar les disgyblion. Mae un o egwyddorion arweiniol y fframwaith, y dylai ysgolion weithredu 'yn ôl eu harfer' cyn belled ag y bo modd, yn debygol o wella lles cyffredinol ac iechyd meddwl dysgwyr.

**Adroddiad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (CCHD) *Sut mae coronafeirws wedi effeithio ar gydraddoldeb a hawliau dynol,* Hydref 2020**

Fel rhan o'i gyfres o adroddiadau *A yw Prydain yn Decach?,* mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn edrych ar sut mae'r pandemig wedi effeithio ar wahanol grwpiau. Mae'r canfyddiadau allweddol am gau ysgolion a dysgu o bell yn cynnwys:

> *"Mae yna berygl gwirioneddol o 'genhedlaeth COVID' coll wrth i bobl ifanc golli allan ar addysg a bod yn debygol o wynebu'r colledion swyddi mwyaf.*
>
> *"Mae'r amrywiaethau mewn cefnogaeth ar gyfer dysgu o bell yn ystod y pandemig yn bygwth lledaenu''r anghydraddoldebau ar gyfer y rhai sydd eisoes yn perfformio'n llai da na'u cyfoedion, yn arbennig bechgyn, disgyblion duon, rhai disgyblion Sipsiwn, Roma a theithwyr, disgyblion sydd angen cefnogaeth mewn addysg, a'r rhai sydd dan anfantais economaidd-gymdeithasol.*
>
> *"Mae'r ymateb i'r pandemig wedi creu bylchau yn addysg y mwyafrif o blant ym Mhrydain. Mae'r bylchau hyn yn bygwth cyrhaeddiad ar lefel cynradd ac uwchradd.*
>
> *"Mae bechgyn yn parhau i berfformio'n waeth na merched ac mae cyrhaeddiad plant â SEND / ASN / ADY yn llawer is na'r rhai heb anghenion o'r fath.*
>
> *"Mae gan ddisgyblion duon lefelau cyrhaeddiad is na grwpiau lleiafrifoedd ethnig eraill, er bod disgyblion Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn dal i fod â'r lefelau cyrhaeddiad isaf o unrhyw grŵp ethnig o swm arwyddocaol.*

*"Mae plant sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim neu o ardaloedd o amddifadedd yn perfformio'n is na'r cyfartaledd. Mae perygl y bydd y grwpiau hyn yn colli tir pellach. Mae yna hefyd anghydraddoldeb o ran faint o amser a dreulir ar ddysgu yn y cartref, gyda rhywfaint o arwydd bod bechgyn yn treulio llai o amser ar ddysgu yn y cartref na merched.*

*"Awgryma ymchwil nad oedd gan 20% o ddisgyblion ar brydau ysgol am ddim yn y DU fynediad at gyfrifiadur yn y cartref, o gymharu â 7% o blant eraill.*

*"Yng Nghymru, mae yna hefyd bryderon nad yw disgyblion sy'n mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg ac nad oes ganddynt rieni sy'n siarad Cymraeg yn cael digon o sylw."*

Rydym wedi nodi rhai effeithiau penodol yn ôl nodwedd warchodedig ac wedi rhestru'r rhain isod.

Yn gyffredinol, lle'r ydym yn cyfeirio at staff, cyfeiriwn at yr ystod lawn o staff sy'n ymwneud ag ysgolion a lleoliadau gan gynnwys yr holl staff addysgu a staff nad ydynt yn addysgu, staff gweinyddol, cyfleusterau a chludiant i'r ysgol.

## Anabledd

### Staff ag anableddau

Mae'n debygol y bydd nifer uwch o staff ag anableddau corfforol mewn ysgolion a lleoliadau angen cymryd gofalon wrth ddychwelyd i'r safle o'i gymharu â staff heb anabledd. Bydd rhai o'r rhain yn hynod fregus yn glinigol ac efallai eu bod wedi bod yn cysgodi cyn hyn. Gall rhai o'r unigolion hyn fod yn agored iawn i niwed yn glinigol. Mae'r fframwaith yn nodi y dylai staff y nodir eu bod yn agored iawn i niwed yn glinigol ddilyn y canllawiau a gyhoeddwyd. Dylai'r aelodau staff hyn barhau i drafod gyda'u hysgolion sut y cânt eu cefnogi.

Yn achos aelodau o staff ag anghenion cymorth ychwanegol, bydd yn bwysig i unrhyw newidiadau i'r drefn arferol gael eu cyfleu'n glir.

### Lles meddyliol staff

Mae'n bosibl bod cyfyngiadau ar drefniadau gweithredu wedi cael mwy o effaith negyddol ar staff sy'n dioddef o salwch meddwl na'u cymheiriaid. Efallai y bydd yr un grŵp o bobl yn fwy tebygol o fod yn bryderus ynghylch newidiadau pellach i drefniadau gweithredu ysgolion a lleoliadau. Bydd y Fframwaith yn galluogi ysgolion, mewn partneriaeth â'u hawdurdod lleol a chyrff iechyd cyhoeddus, i ddefnyddio gwybodaeth leol i flaenoriaethu mesurau rheoli risg ar sail effeithiolrwydd gwahanol fathau o reolaeth. Bydd y mesurau hyn yn cynorthwyo ysgolion i gyflawni ein nodau o alluogi ysgolion i weithredu 'yn ôl eu harfer' cyn belled ag y bo modd (gan gynnwys darparu brecwast am ddim a chlybiau ar ôl ysgol, gweithgareddau allgyrsiol a

phynciau ymarferol) er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau i bob dysgwr drwy ystyried eu hanghenion addysgol a'u lles drwy reoli risgiau parhaus COVID-19 mor ddiogel â phosibl (fel gyda heintiau eraill) a sicrhau eglurder o ran y camau gweithredu sydd eu hangen os oes achos yn yr ysgol.

### Profion rheolaidd

Anogir staff ysgol a dysgwyr oedran uwchradd i gynnal Profion Llif Unffordd ychydig cyn dychwelyd i'r ysgol. Bydd profion ar gael drwy sianeli cymunedol yn ystod y cyfnod hwn. Byddwn yn cysylltu ymhellach yn y cyfnod cyn dechrau tymor yr hydref i gefnogi hyn. Wrth i ysgolion bontio i'r Fframwaith, bydd rôl y profion yn dibynnu ar lefel y risg.  Bydd canllawiau pellach yn cael eu rhoi i ysgolion i esbonio mwy am sut y caiff newidiadau o'r fath eu rhoi ar waith.

### Rhyw

### Cyfrifoldebau gofalu

Bydd y Fframwaith yn galluogi ysgolion, mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol, i ddwysáu neu lacio mesurau yn unol â hynny, ar sail y risg yn lleol. Dylai hyn helpu i leihau cymaint ag y bo modd ar y tarfu ar ddiwrnodau ysgol a achosir gan gau gorfodol neu gyfnodau o hunanynysu.

Rydym yn cydnabod bod menywod sy'n staff yn fwy tebygol o fod wedi bod yn ceisio dod i ben â gofalu am eu plant eu hunain pan fo angen iddynt hunanynysu, tra'n parhau i gefnogi dysgwyr. Rhagwelir y bydd y camau a gymerir i leihau nifer y plant sy’n gorfod hunanynysu yn cael effaith gadarnhaol ar hyn, ac un o egwyddorion arweiniol y fframwaith yw y dylai ysgolion weithredu 'yn ôl eu harfer' cyn belled ag y bo modd. Bydd y newidiadau diweddar i'r polisi hunanynysu yng Nghymru hefyd yn cael effaith gadarnhaol gan na fydd yn ofynnol i bobl sydd wedi cael eu brechu ddwywaith, neu sydd o dan 18 oed, hunanynysu mwyach os ydynt wedi bod mewn cysylltiad â rhywun sydd wedi profi'n bositif (er y byddant yn cael eu hannog i gymryd prawf PCR).

### Iechyd menywod

Ar unrhyw un adeg, bydd cyfran o'r gweithlu addysg benywaidd yn delio ag effeithiau gwanychol y menopos a materion iechyd eraill sy’n ymwneud â’r mislif fel endometrosis. Gall straen, y gwyddom ei fod wedi cynyddu i rai o ganlyniad i gyfnodau clo a chyfyngiadau, waethygu nifer o'r symptomau sy'n gysylltiedig â'r cyflyrau hyn. Gyda gweithleoedd yn symud tuag at fod yn 'gyfeillgar i'r menopos' dylai ysgolion ystyried sut maen nhw'n cynnig cymorth o fewn y cyd-destun hwn.

### Ailbennu rhywedd

Mae'n bosibl bod aelodau trawsryweddol y gweithlu wedi profi oedi cyn cael triniaeth sy'n cadarnhau rhywedd oherwydd COVID-19, a allai gael effaith negyddol ar iechyd

meddwl a lles. Nid oes data ar gael i wybod faint o aelodau'r gweithlu y gallai hyn fod yn effeithio arnynt.

## Beichiogrwydd a mamolaeth

Dylai aelodau beichiog o'r gweithlu barhau i ddilyn y canllawiau diweddaraf a nodir yn y fframwaith, a dylai cyflogwyr gynnal asesiadau risg.

## Dychwelyd i'r gwaith

Bydd rhai aelodau o staff yn dychwelyd i'r gweithlu ar ôl cyfnod mamolaeth a bydd rhai agweddau ar drefniadau gweithredol wedi newid erbyn iddynt ddychwelyd.

Mae arbenigwyr wedi rhybuddio bod Covid-19 wedi cael effaith negyddol ar iechyd meddwl mamau y tu hwnt i'r hyn a welwyd yn y boblogaeth gyffredinol, lle mae'r cyfraddau pryder a gofnodwyd wedi mwy na dyblu. Dylid rhoi ystyriaeth i’r ffordd y cânt eu hailsefydlu yn y gweithlu.

## Mannau crefyddol

Dylid sicrhau bod darpariaeth ar gael i staff gael mynediad i fannau crefyddol ar adegau disgwyliedig o'r dydd.

## Lles

Rydym yn cydnabod bod cefnogi lles staff yn parhau i fod yn hollbwysig. Rydym yn parhau i bwysleisio y dylai staff ystyried eu hiechyd a'u lles fel rhan o unrhyw brosesau asesu risg.

## Aelwydydd incwm isel

Bydd dull gweithredu’r Fframwaith ar gyfer ysgolion, mewn partneriaeth â'u hawdurdod lleol a'u corff iechyd, yn caniatáu i risgiau gael eu hasesu'n lleol pe bai achosion o Covid-19 yn yr ysgol neu'r gymuned, a thrwy hynny ddwysáu neu lacio rhai mesurau pe bai'r risg leol yn wahanol i'r hyn a bennir yn genedlaethol (gan Lywodraeth Cymru). Fel y nodwyd yn gynharach, bydd egwyddor arweiniol y fframwaith yn helpu i alluogi ysgolion i weithredu 'yn ôl eu harfer' cyn belled ag y bo modd drwy reoli risgiau parhaus COVID-19 mor ddiogel â phosibl. Gallai cau'r ysgol yn annisgwyl gael effaith andwyol ar incwm rhai staff ysgol neu staff cynorthwyol, er enghraifft, os mai dim ond am yr oriau y maent wedi gweithio y cânt eu talu, yn enwedig o gofio bod y cynllun ffyrlo yn raddol gael ei ddirwyn i ben ac yn dod i ben yn llwyr o ddiwedd mis Medi.

## Cofnod o Effeithiau yn ôl nodwedd warchodedig

## Plant a phobl ifanc

| Nodwedd neu grŵp gwarchodedig | Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig? | Y rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) | Sut byddwch yn lleihau'r effeithiau? |
|---|---|---|---|
| Oedran | Gall colli mynediad at ddarpariaeth ar safle, trefn a chyswllt cymdeithasol effeithio'n andwyol ar blant a phobl ifanc. Un o nodau craidd y newidiadau a gyflwynwyd o fis Medi yw lleihau i'r eithaf nifer y plant sy'n gorfod hunanynysu. Gwnaed y newid polisi hwn cyn cyhoeddiad y Prif Weinidog y bydd rheolau hunanynysu yn newid (o 7 Awst) ar gyfer rhai dan 18 oed (gweler tudalen 1) a bydd y ddau newid hyn yn helpu i sicrhau bod gofyn i lai o blant hunan-ynysu, i helpu sicrhau bod cynifer o blant a phosib yn gallu gael mynediad i addysg ar safle'r ysgol. llai . | Plant a phobl ifanc yw'r grwpiau y mae cau ysgolion a cholegau yn effeithio fwyaf uniongyrchol arnynt. | Un o egwyddorion arweiniol y fframwaith yw y dylai ysgolion weithredu 'yn ôl eu harfer' cyn belled ag y bo modd. Bydd y newidiadau diweddar i'r polisi hunanynysu yng Nghymru hefyd yn cael effaith gadarnhaol.<br><br>Mae ysgolion a lleoliadau wedi bod ar agor i blant sy'n agored i niwed a phlant gweithwyr hanfodol, a bydd hyn yn parhau i fod yn ofynnol. |

| Nodwedd neu grŵp gwarchodedig | Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig? | Y rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) | Sut byddwch yn lleihau'r effeithiau? |
|---|---|---|---|
| Anabledd | Gall plant a phobl ifanc ag anableddau ac anghenion dysgu ychwanegol neu arbennig gael eu heffeithio'n fwy andwyol drwy beidio â mynd i'r ysgol neu'r coleg. Un o nodau craidd y newidiadau a gyflwynwyd o fis Medi yw lleihau nifer y plant sy’n gorfod hunanynysu. | Ein nod yw sicrhau bod nifer y plant sy’n gorfod hunanynysu yn cael ei leihau. Dylai dysgwyr sy'n agored i niwed a nodwyd gan ddarparwyr addysgol neu Awdurdodau Lleol (gan gynnwys gwasanaethau gofal cymdeithasol plant), barhau i allu cael mynediad at ddarpariaeth ar y safle yn ystod cyfnodau o gau. | Gellir disgwyl i bob plentyn a pherson ifanc y nodwyd eu bod yn agored i niwed neu sydd â datganiad AAA fynd i’w hysgol neu goleg arferol fel arfer fel y nodir yn y Rheoliadau. Mae'r gallu i fynd i’w hysgol neu eu lleoliad eu hunain yn lliniaru rhywfaint o’r effaith o ran cael mynediad at gymorth cyfarwydd, rhyngweithio cymdeithasol a dilyn trefn arferol. Rydym yn cydnabod effaith barhaus y pandemig ar gefnogaeth i'r dysgwyr hyn. |
| Ailbennu Rhywedd | Dim | -- | -- |
| Beichiogrwydd a mamolaeth | Deallwn y gallai fod achosion o feichiogrwydd ymhlith pobl ifanc a allai fod yn parhau i fynd i’r ysgol neu'r coleg. | Mae astudiaethau o'r DU yn dangos nad yw menywod beichiog yn fwy tebygol o fod yn ddifrifol wael o'r coronafeirws ond mae menywod beichiog wedi'u cynnwys yn y rhestr o bobl sydd mewn mwy o berygl fel rhagofal. Dylai | Gall negeseuon canolog a gwybodaeth sydd ar gael fod yn berthnasol a rhoi sicrwydd. Mae sicrhau bod cymaint â phosibl o'r unigolion hyn yn gallu mynd i'r ysgol yn debygol o helpu i sicrhau y gellir darparu cymorth |

| Nodwedd neu grŵp gwarchodedig | Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig? | Y rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) | Sut byddwch yn lleihau'r effeithiau? |
|---|---|---|---|
| | | menywod beichiog ddilyn canllawiau diweddaraf y llywodraeth ar ymbellhau cymdeithasol ac osgoi unrhyw un sydd â symptomau sy'n awgrymu coronafeirws. Dylai menywod beichiog yn eu trydydd trimester dalu sylw arbennig i ymbellhau cymdeithasol. | priodol ac amserol ac y gellir mabwysiadu unrhyw drefniadau dysgu y mae eu hangen. |
| Hil | Gall dysgu o bell effeithio'n andwyol ar rai dysgwyr Duon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, gan gynnwys dysgwyr Sipsi, Roma a Theithwyr, yn enwedig o ran cael mynediad at dechnoleg. | Adroddiad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol: *Sut mae coronafeirws wedi effeithio ar gydraddoldeb a hawliau dynol,* Hydref 2020 | Mae'r egwyddorion arweiniol y tu ôl i'r Fframwaith yn cynnwys galluogi ysgolion i weithredu 'yn ôl eu harfer' i'r graddau y mae hynny'n bosibl a sicrhau'r canlyniadau gorau i bob dysgwr drwy ystyried eu hanghenion addysgol a'u lles. Bydd y newidiadau diweddar i bolisi hunanynysu Cymru hefyd yn cael effaith gadarnhaol. |
| Crefydd, cred a dim cred | Gall cau ysgol neu goleg crefyddol eu natur gael effaith andwyol ar blant a phobl ifanc sy'n mynd i ysgolion o'r fath, os mai'r ysgol neu goleg | Efallai mai'r ysgol neu'r coleg yw'r unig gyfle a gaiff rhai plant a phobl ifanc i arfer crefydd gyda'u cyfoedion. | Drwy Hwb, y llwyfan dysgu digidol i Gymru, mae gan ddysgwyr ac ymarferwyr o ysgolion a gynhelir fynediad at amrywiaeth o |

| Nodwedd neu grŵp gwarchodedig | Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig? | Y rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) | Sut byddwch yn lleihau'r effeithiau? |
|---|---|---|---|
| | yw’r unig gyfle sydd ganddynt i gyd-addoli neu i gael unrhyw ddysgeidiaeth arall sy'n bwysig i'r unigolion hynny. | | adnoddau dysgu ar-lein.<br><br>Fel y nodwyd uchod, bydd y fframwaith yn galluogi ysgolion i weithredu 'yn ôl eu harfer' i’r graddau mwyaf posibl (gan weithio mewn partneriaeth â'u hawdurdod lleol a'u corff iechyd cyhoeddus) drwy deilwra mesurau mewn ysgolion yn ôl risg leol pe bai'r rhain yn wahanol i'r dirwedd genedlaethol. |
| Rhyw / Rhywedd | Mae pob dysgwr yn datblygu mewn gwahanol ffyrdd ac er er ei fod yn fater cymhleth, rydym yn deall y gall rhywedd fod yn ffactor dylanwadol mewn datblygiad gwybyddol, o ran cyfranogiad a chyflawniad; er y gall rhywedd hefyd ddangos bodolaeth rhwystrau a heriau eraill a allai gael mwy o effaith. | Gwybodaeth am gyrhaeddiad dros amser a thystiolaeth ryngwladol gan PISA, er enghraifft (Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr) | Mae natur unigol dysgwyr a dysgu a'r angen am gymorth wedi'i dargedu yn cael ei gydnabod yn ein camau gweithredu i gefnogi plant a phobl ifanc i ddychwelyd i ysgolion a lleoliadau a symud y tu hwnt i COVID. |

| **Nodwedd neu grŵp gwarchodedig** | **Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?** | **Y rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)** | **Sut byddwch yn lleihau'r effeithiau?** |
|---|---|---|---|
| Cyfeiriadedd rhywiol | Dim | -- | -- |
| Priodas a phartneriaeth sifil | Dim | -- | -- |
| Plant a phobl ifanc hyd at 18 oed | Mae Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant (CRIA) ar gyfer y dull fframwaith wedi'i gynnal ar wahân. | Mae plant a phobl ifanc yn cael eu heffeithio'n uniongyrchol gan darfu ar ysgolion. Un o egwyddorion allweddol y fframwaith yw bod ysgolion yn gweithredu mor agos â phosibl at eu harfer. | Mae Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant llawn ar gael ar wahân. |
| Cartrefi incwm isel | Gall dysgwyr o aelwydydd incwm isel gael eu heffeithio'n anghymesur gan darfu ar leoliadau ysgol e.e. cau a diffyg darpariaeth TG gartref neu ofyniad i ddarparu gorchuddion wyneb mewn ysgolion (enghreifftiau yn unig). | Arolwg Cenedlaethol Cymru, 2018-19 *Defnydd o'r rhyngrwyd a sgiliau digidol*<br><br>Cynhaliwyd sesiynau tystiolaeth gyda phobl ifanc gan swyddfa Comisiynydd Plant Cymru a Phlant yng Nghymru. | Bydd egwyddorion arweiniol y fframwaith yn helpu i sicrhau cyn lleied o darfu â phosibl ar y diwrnod ysgol. Dyma’r tri amcan:<br><br>• galluogi ysgolion i weithredu 'yn ọl eu harfer' cyn belled ag y bo modd gan gynnwys darparu brecwast am ddim a chlybiau ar ôl ysgol, gweithgareddau allgyrsiol a phynciau ymarferol |

| Nodwedd neu grŵp gwarchodedig | Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig? | Y rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) | Sut byddwch yn lleihau'r effeithiau? |
| --- | --- | --- | --- |
| | | | • sicrhau'r canlyniadau gorau i bob dysgwr drwy ystyried eu hanghenion addysgol a'u lles<br>• rheoli risgiau parhaus COVID-19 mor ddiogel â phosibl fel y gwneir â heintiau eraill, a sicrhau eglurder o ran y camau gweithredu y mae eu hangen os oes achos mewn ysgol. |

**Staff mewn ysgolion a lleoliadau a theuluoedd**

| Nodwedd neu grŵp gwarchodedig | Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig? | Y rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) | Sut byddwch yn lleihau'r effeithiau? |
| --- | --- | --- | --- |
| Oedran | Gall oedolion oedran gweithio sy'n rhieni gael eu heffeithio'n andwyol gan yr angen i ddarparu gofal a chymorth ychwanegol i'w plant tra'n eu haddysgu adref. Fel rhan o'r newidiadau a gyflwynwyd o fis Medi ymlaen, ein nod yw lleihau nifer y plant | Mae'n bosibl bod cyfnodau hunanynysu wedi golygu bod llawer o rieni sy'n gweithio nad ydynt yn weithwyr allweddol wedi gorfod gwneud trefniadau gyda'u cyflogwyr i newid patrymau a lleoliadau eu gwaith. | Rydym yn parhau i ddefnyddio ymgyrchoedd a rhwydweithiau i ddosbarthu gwybodaeth a chyngor i rieni a rhoi sicrwydd, er enghraifft ymgyrch *Magu Plant: Rhowch Amser Iddo* a ddefnyddir i roi negeseuon i rieni; |

| Nodwedd neu grŵp gwarchodedig | Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig? | Y rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) | Sut byddwch yn lleihau'r effeithiau? |
|---|---|---|---|
| | sy'n gorfod hunanynysu, gan leihau'r effaith ar oedolion oedran gweithio sydd â phlant ifanc yn arbennig oherwydd bod rhaid iddynt ddarparu gofal i'w plant a'u goruchwylio pan fydd angen hunanynysu.<br><br>Bydd rhai o'r rhieni hyn wedi gorfod defnyddio absenoldeb neu chwilio am waith arall lle nad yw gweithio gartref wedi bod yn opsiwn, ac mewn rhai achosion byddant wedi cael eu rhoi ar ffyrlo neu wedi colli cyflogaeth, a allai yn ei dro arwain at gynnydd mewn aelwydydd incwm isel. | Mae dibyniaeth ar rwydweithiau ehangach o deulu a chyfeillion ar gyfer gofal plant hefyd wedi'i chyfyngu o dan y mesurau COVID-19 ehangach sydd wedi bod ar waith yn ystod y misoedd diwethaf, Fodd bynnag, cydnabyddir bod modd cymysgu'n gymdeithasol yn fwy eang erbyn hyn, gan ein bod ar Lefel Rhybudd Sero. | tudalen Facebook Dechrau'n Deg; a'n Grŵp Gweithredu Arbenigol Rhianta, Gofal Plant, Dechrau'n Deg a Rhwydweithiau Teuluoedd yn Gyntaf. Mae ein hymgyrchoedd tawelu meddyliau diweddar wedi canolbwyntio ar Cadw Cymru'n Dysgu, Profi a Chadw Cymru'n Ddiogel.<br><br>Mae data Iechyd Cyhoeddus Cymr yn dangos ar 27 Awst 2021 bod 90.2% o bobl dros 16 oed yng Nghymru wedi cael un brechlyn ac 83.6% o unigolion dros 16 wedi cael dau ddos o'r brechlyn, gan liniaru'r risgiau hyn.<br><br>Un o egwyddorion arweiniol y fframwaith yw y dylai ysgolion weithredu yn ôl eu harfer' cyn belled ag y bo modd. |
| Oedran | Gall aelodau hŷn o staff hefyd fod â phryderon ynglŷn â gwendidau iechyd anwyliaid yn eu cartref neu mewn trefniadau gofal. | Mae'n hysbys fod oedran yn ffactor wrth benderfynu ar y risg o ddatblygu symptomau Covid-19 mwy difrifol. | |

| Nodwedd neu grŵp gwarchodedig | Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig? | Y rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) | Sut byddwch yn lleihau'r effeithiau? |
|---|---|---|---|
| | | | Bydd y newidiadau diweddar i'r polisi hunanynysu yng Nghymru hefyd yn cael effaith gadarnhaol. |
| Anabledd | Gall rhieni a gofalwyr ag anableddau gael eu heffeithio'n anghymesur gan yr angen i ddarparu gofal a chymorth ychwanegol i blant pan fo ysgolion yn cau. | Gall anableddau corfforol ac anableddau dysgu effeithio ar allu rhiant i gyflawni rôl rhoddwr gofal ac addysgwr yn llawn amser, hyd yn oed am gyfnod byr. | Rydym yn cydnabod y gallai rhai rhieni a gofalwyr fod yn fwy pryderus ynghylch bresenoldeb eu plant yn yr ysgol. Mae'n hanfodol bod ysgolion yn dilyn pryderon ynglŷn ag ymgysylltu, neu les dysgwr. Dylai ysgolion ac Awdurdodau Lleol weithio gyda'r teulu i gefnogi dysgwyr i fanteisio ar y cwricwlwm llawn a |

| Nodwedd neu grŵp gwarchodedig | Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig? | Y rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) | Sut byddwch yn lleihau'r effeithiau? |
|---|---|---|---|
| | | | lleihau'r tarfu ar eu haddysg.<br><br>Mae'r fframwaith yn ffordd o flaenoriaethu mesurau rheoli risg ar sail effeithiolrwydd gwahanol fathau o reolaeth o ran lleihau risgiau a bydd yn adnodd defnyddiol i awdurdodau lleol ac ysgolion wrth ystyried ymyriadau pwrpasol. Os asesir, drwy wybodaeth leol, fod lefel y risg – ar gyfer rhanbarth, ardal neu ysgol unigol – yn wahanol i lefel y risg yn genedlaethol, er enghraifft, oherwydd achos neu glwstwr posibl, bydd ysgolion yn cael cymorth i adolygu eu hasesiad risg a rhoi ymyriadau cymesur pwrpasol ychwanegol ar waith. Bydd hyn yn ei dro yn helpu i leihau'r gofyn am ofal plant a chymorth ychwanegol gan rieni a gofalwyr. |
| Anabledd | Gan fod ysgolion bellach ar agor yn llawn, bydd mwy o | Mae'n debygol y bydd angen i nifer uwch o staff ysgol ag | Dylai staff siarad â'u cyflogwyr am sut y |

| Nodwedd neu grŵp gwarchodedig | Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig? | Y rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) | Sut byddwch yn lleihau'r effeithiau? |
|---|---|---|---|
| | staff yn bresennol yn y safleoedd. Gall hyn gynnwys staff ag anableddau. | anableddau corfforol gymryd gofal wrth ddychwelyd i'r ysgol o gymharu â staff ysgol heb anabledd. | byddant yn cael eu cefnogi.<br><br>Bydd asesiadau risg yn parhau i fod yn allweddol i sicrhau amgylchedd ysgol sy'n ddiogel rhag Covid. Dylai ysgolion adolygu eu hasesiadau risg, gan ddefnyddio'r fframwaith, o leiaf bob tymor neu'n fwy rheolaidd yn dibynnu ar y sefyllfa o ran Covid yn lleol. |
| Ailbennu Rhywedd | Rydym yn cydnabod y gallai aelodau trawsryweddol o'r gweithlu fod wedi profi oedi cyn cael triniaeth sy'n cadarnhau rhyw oherwydd COVID-19, a allai gael effaith negyddol ar iechyd meddwl a lles.<br><br>Nid oes data ar gael i ddod o hyd i faint o aelodau'r gweithlu y gallai hyn fod yn effeithio arnynt. | -- | -- |
| Beichiogrwydd a mamolaeth | Gall menywod beichiog a'r rhai sydd â phlant ifanc iawn yn | Adroddiad y Comisiwn Cydraddoldeb a | Rydym yn defnyddio ymgyrchoedd, a rhwydweithiau, i |

| Nodwedd neu grŵp gwarchodedig | Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig? | Y rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) | Sut byddwch yn lleihau'r effeithiau? |
|---|---|---|---|
| | ogystal â phlant hŷn sy'n mynd i'r ysgol neu'r coleg gael eu heffeithio'n andwyol gan yr angen i ddarparu gofal plant a chymorth ychwanegol ar gyfer addysg yn y cartref.<br><br>Mae'r rhai sydd wedi dod yn ofalwyr di-dâl yn fwy tebygol o fod yn fenywod, yn iau ac a chanddynt blant ifanc. Maent wedi wynebu galwadau sy'n cystadlu â'i gilydd, sydd wedi herio eu hiechyd a'u lles corfforol a meddyliol ac wedi rhoi straen ychwanegol ar eu perthnasoedd, eu cyllid a'u gallu i ennill cyflog. | Hawliau Dynol: *Sut mae coronafeirws wedi effeithio ar gydraddoldeb a hawliau dynol,* Hydref 2020 | ddosbarthu gwybodaeth a chyngor i rieni a rhoi sicrwydd, er enghraifft er enghraifft ymgyrch *Magu Plant: Rhowch Amser Iddo* a ddefnyddir i roi negeseuon i rieni; tudalen Facebook Dechrau'n Deg; a'n Grŵp Gweithredu Arbenigol Rhianta, Gofal Plant, Dechrau'n Deg a Rhwydweithiau Teuluoedd yn Gyntaf. |
| Beichiogrwydd a mamolaeth | Gall staff sy'n gweithio ar y safle gynnwys staff sy'n feichiog. | Mae menywod beichiog yn y categori pobl sydd mewn mwy o berygl ac fe'u cynghorir yn gyffredinol i ddilyn y cyngor uchod, sy'n berthnasol i'r holl staff mewn ysgolion a'r cyngor i'r cyhoedd ond wrth wneud | Dylai staff beichiog a'u cyflogwyr ddilyn y cyngor yn y fframwaith sy'n nodi y dylid eu hannog i gael brechiad a chael asesiad risg yn y gweithle. Os nad yw gweithio gartref yn bosibl, dylai staff beichiog a'u cyflogwyr |

| Nodwedd neu grŵp gwarchodedig | Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig? | Y rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) | Sut byddwch yn lleihau'r effeithiau? |
|---|---|---|---|
| | | hynny i fod yn ymwybodol eu bod mewn mwy o berygl | ddilyn cyngor Llywodraeth y DU COVID-19: cyngor i weithwyr beichiog. (Saesneg yn unig) |
| Hil (yn cynnwys gwahanol leiafrifoedd ethnig, Sipsiwn a Theithwyr a Mudwyr, Ceiswyr Lloches a Ffoaduriaid) | Bydd staff sy'n gweithio ar y safle yn cynnwys llawer o bobl dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, y gwyddom eu bod mewn gwaeth perygl o ddatblygu symptomau mwy difrifol ar ôl dal Covid-19. | Er bod y cynnig hwn yn galluogi aelodau staff i addysgu dysgwyr wyneb yn wyneb, mae'n hysbys bod ethnigrwydd yn ffactor wrth bennu risg o ddatblygu symptomau mwy difrifol ar ôl dal Covid-19. | Mae'r fframwaith yn cynnwys hierarchaeth o reolaethau a fydd yn cefnogi staff ac yn galluogi blaenoriaethu mesurau rheoli risg ar sail effeithiolrwydd gwahanol fathau o reolaeth o ran lleihau risgiau. |
| Crefydd, cred a dim cred | Efallai y bydd staff yn pryderu na fyddant yn gallu dod o hyd i le addas ar y safle ar gyfer addoli crefyddol. | | Dylid sicrhau bod darpariaeth ar gael i staff gael mynediad i fannau crefyddol ar adegau disgwyliedig o'r dydd. |
| Rhyw / Rhywedd | Menywod, yn hytrach na'u partneriaid gwrywaidd, sy'n fwy tebygol o ysgwyddo baich gofal plant ychwanegol ac addysg yn y cartref, hyd yn oed os ydynt mewn cyflogaeth. | Adroddiad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol: *Sut mae coronafeirws wedi effeithio ar gydraddoldeb a hawliau dynol,* Hydref 2020 | Rydym yn defnyddio ymgyrchoedd, a rhwydweithiau, i dawelu meddyliau ac i ddosbarthu gwybodaeth a chyngor i rieni, er enghraifft er enghraifft ymgyrch *Magu Plant: Rhowch Amser Iddo* a ddefnyddir i roi |

| Nodwedd neu grŵp gwarchodedig | Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig? | Y rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) | Sut byddwch yn lleihau'r effeithiau? |
|---|---|---|---|
| | | | negeseuon i rieni; tudalen Facebook Dechrau'n Deg; a'n Grŵp Gweithredu Arbenigol Rhianta, Gofal Plant, Dechrau'n Deg a Rhwydweithiau Teuluoedd yn Gyntaf |
| Rhyw / Rhywedd | Rydym yn gwybod bod dynion mewn mwy o berygl o ddatblygu symptomau mwy difrifol o COVID-19. | Parhau â'r ddarpariaeth ar y safle. Mae’n hysbys bod oedran yn ffactor wrth bennu'r risg o ddatblygu symptomau mwy difrifol o COVID-19. | Gall staff sydd mewn mwy o berygl barhau i fynd i'r ysgol. Tra byddant yn yr ysgol dylent lynu at y mesurau ar gyfer lleihau'r perygl o’r haint yn cael ei drosglwyddo - gan gynnwys cymryd gofal arbennig i gadw at hylendid dwylo ac anadlol da, lleihau cyswllt a chynnal pellter corfforol - a dylent gael asesiad unigol yn y gweithle.<br><br>Gall pobl sy'n byw gyda'r rhai sydd mewn mwy o berygl fynd i'r gweithle ond dylent sicrhau eu bod yn cynnal arferion atal da yn y gweithle ac yn y cartref. |
| Cyfeiriadedd rhywiol | Dim | -- | -- |

| Nodwedd neu grŵp gwarchodedig | Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig? | Y rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) | Sut byddwch yn lleihau'r effeithiau? |
|---|---|---|---|
| Priodas a phartneriaeth sifil | Dim | -- | -- |
| Plant a phobl ifanc hyd at 18 oed | Amh – gweler yr adran ar blant a phobl ifanc | -- | -- |
| Aelwydydd incwm isel | Efallai na fydd gan rieni o gartrefi incwm isel yr adnoddau deallusol i helpu eu plant gydag addysg yn y cartref. | Ein nod yw sicrhau bod nifer y dysgwyr sy'n gorfod hunanynysu yn cael ei leihau. | Un o egwyddorion arweiniol y fframwaith yw y dylai ysgolion weithredu 'yn ôl eu harfer' cyn belled ag y bo modd. Bydd y newidiadau diweddar i'r polisi hunanynysu yng Nghymru hefyd yn cael effaith gadarnhaol.<br><br>Mae ysgolion a lleoliadau wedi bod ar agor i blant sy'n agored i niwed a phlant gweithwyr hanfodol, a bydd hyn yn parhau i fod yn ofynnol. |
| Cartrefi incwm isel | Efallai y bydd aelodau o'r gweithlu addysg ac eraill sy'n gweithio mewn ysgolion a lleoliadau yn pryderu am faterion ariannol ac angen cymorth ychwanegol, gan | Er nad ydym yn mesur cymhwysedd prydau ysgol am ddim fesul cartref, gall y data a gasglwyd gan Ddata Cymru ddangos cynnydd yn nifer y disgyblion sy'n | Mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU wedi rhoi nifer o fesurau cymorth ar waith ar gyfer pobl ar aelwydydd incwm isel gan gynnwys cymorth ariannol, cymorth |

| Nodwedd neu grŵp gwarchodedig | Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig? | Y rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) | Sut byddwch yn lleihau'r effeithiau? |
|---|---|---|---|
| | gynnwys y rhai ar aelwydydd incwm isel. | cael prydau ysgol am ddim amlygu pryderon ariannol ehangach. | dewisol a chynlluniau gwella. |

## Hawliau Dynol a Chonfensiynau'r Cenhedloedd Unedig

Er bod y Rheoliadau yn ymrwymo hawliau unigol o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1988 a Siarter Hawliau Sylfaenol Ewrop, mae Llywodraeth Cymru o'r farn eu bod yn gyfiawn at ddiben atal lledaenu clefydau heintus a/neu caniateir yr ymyriad am ei fod ynghlwm wrth gyflawni nod dilys, sef diogelu iechyd y cyhoedd a'u bod yn gymesur.

Ymrwymir Erthygl 5 (hawl i ryddid), Erthygl 8 (parch am eich bywyd preifat a theuluol), Erthygl 9 (rhyddid meddwl, cydwybod a chrefydd), Erthygl 11 (rhyddid ymgynnull a chymdeithasu) ac Erthygl 1 o'r Protocol Cyntaf (diogelu eiddo) gan y Rheoliadau hyn.

Mae'r rhain i gyd yn hawliau amodol, sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru ymyrryd ag arfer yr hawliau os oes angen mewn cymdeithas ddemocrataidd er mwyn diogelu'r cyhoedd, neu ddiogelu iechyd. Rhaid cyfiawnhau unrhyw gyfryw gyfyngiadau a gofynion ar sail y ffaith eu bod yn anelu at gyflawni nod dilys, sef diogelu iechyd y cyhoedd a'u bod yn gymesur.

Rhaid i unrhyw achos o ymyrryd â'r hawliau hyn hefyd gael ei gydbwyso â rhwymedigaethau cadarnhaol y Wladwriaeth o dan Erthygl 2 (hawl i fywyd). Mae'n cydbwyso'r angen i barhau i ymateb i'r bygythiad a berir gan y coronafeirws mewn ffordd briodol â hawliau unigolion a busnesau, mewn ffordd sy'n parhau i fod yn gymesur â'r angen i ostwng cyfraddau trosglwyddo'r coronafeirws, gan ystyried y dystiolaeth wyddonol.

Er ein bod yn gwneud newidiadau ac yn cyflwyno'r dull fframwaith o weithio, dylai'r mesurau craidd canlynol barhau i fod ar waith ni waeth beth fo lefel y risg:

- Dylid atgoffa'r holl staff a dysgwyr i ddilyn canllawiau Llywodraeth Cymru ar gyfer hunanynysu.
- Ni ddylai staff a dysgwyr fynd i'r ysgol os oes ganddynt unrhyw symptomau COVID-19. Os bydd aelod o staff neu ddysgwr yn datblygu symptomau, dylent gael prawf cyn gynted â phosibl, a hunanynysu nes iddynt gael canlyniad y prawf. Os yw'r prawf yn negyddol gallant roi'r gorau i hunanynysu.  Mae canllawiau pellach ar gael yma.

- Mae golchi dwylo’n rheolaidd a chwrteisi anadlol (Ei Ddal. Ei Daflu. Ei Ddifa.) yn ymyriadau allweddol i atal haint rhag lledaenu a rheoli achosion unigol, digwyddiadau ac achosion ar raddfa ehangach.
- Mae awyru digonol drwy agor ffenestri neu addasu systemau awyru hefyd yn bwysig. Mae canllawiau pellach ar gael yma.
- Cynnal lefelau priodol o lanhau yn unol â gweithdrefnau ar gyfer clefydau trosglwyddadwy eraill. Fodd bynnag, ni fydd angen mwyach i ysgolion neilltuo diwrnodau penodol ar gyfer glanhau dwfn.  Fodd bynnag, os oes clwstwr wedi'i gadarnhau sy'n gysylltiedig ag un dosbarth yn yr ysgol, bydd glanhau'r ardal gyfagos yn ddwfn yn parhau i fod o gymorth o ran lleihau trosglwyddo’r haint.